Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Caerdydd 2018-22

Cynnwys:

Gweithgor ADY

Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Caerdydd 2018-22
- **Gweledigaethau**
- **Gwerthoedd**
- **Goliau**

Yr angen am Strategaeth ADY newydd
- **Y Rhaglen Trawsnewid ADY**
- **Y boblogaeth ADY gynyddol yng Nghaerdydd**
  - **Goblygiadau o ran y capasiti i ddiwallu anghenion ar draws y system**
  - **Goblygiadau o ran darpariaeth arbenigol**

Blaenoriaethau ac amcanion – crynodeb

Atodiad: Cynllun Gweithredu 2018-22 Strategaeth ADY Caerdydd

DRAFT

Gweithgor ADY

Datblygwyd y strategaeth hon gan gynrychiolydd gweithgor ystod eang o randdeiliaid a phartneriaid:

- Penaethiaid
- Y Gymdeithas Llywodraethwyr
- Gwasanaeth Cyrhaeddiad a Chynhwysiant
- Adrefnu Ysgolion a Chynllunio Mynediad
- Cyllid
- Adnoddau Perfformiad a Chynllunio
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Gwasanaethau Plant
- Gwasanaethau Oedolion
- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Rhieni

Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Caerdydd 2018-2022

Mae **Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Caerdydd** wedi'i gosod o fewn gweledigaeth, gwerthoedd a goliau **'Caerdydd 2020; gweledigaeth newydd ar gyfer addysg a dysgu yng Nghaerdydd'.**

Y weledigaeth:

'Mae pob plentyn a pherson ifanc yng Nghaerdydd yn mynychu ysgol wych ac yn datblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r nodweddion sydd eu hangen arnynt i lwyddo'n bersonol, i fod yn gynhyrchiol yn economaidd ac i fod yn ddinasyddion ymgysylltiedig.'

Datblygwyd Strategaeth ADY i nodi'r blaenoriaethau a'r camau penodol a fydd yn cefnogi gweithredu'r weledigaeth hon ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

Gwerthoedd:

- Cefnogi datblygiad dysgwyr hapus a gwydn, gyda ffocws ar gyflawniad academaidd a llesiant personol.
- Cyfle cyfartal a hyrwyddo llwyddiant a chyfleoedd bywyd i bob plentyn drwy leihau'r bwlch o ran canlyniadau addysgol.
- Gweithio'n agored ac ar y cyd gyda'i gilydd a rhannu gwybodaeth, arferion a dysg.
- Codi dyheadau plant a phobl ifanc a'n disgwyliadau ni ynglŷn â'r hyn y gallant ei wneud, waeth beth fo'u cefndir neu angen.
- Croesawu amrywiaeth, gan arfer goddefgarwch a pharch tuag atom ein hunain, ein cymunedau a'n hamgylchedd.
- Dathlu llwyddiannau disgyblion, ymarferwyr ac ysgolion ar bob cyfle.

Mae pum prif gôl Caerdydd 2020 yn berthnasol i'r Strategaeth ADY: Canlyniadau gwych i bob dysgwr

Mae gennym ddisgwyliadau uchel i bob dysgwr. Mae pob dysgwr ag angen ychwanegol yn elwa o addysgu o ansawdd uchel i sicrhau ei fod yn cyflawni ei botensial, ac yn profi llesiant cadarnhaol. Mae'r cwricwlwm yn hyblyg, difyr ac yn gwahaniaethu er mwyn diwallu anghenion pob dysgwr. Caiff cymorth, offer ac adnoddau arbenigol eu defnyddio mewn modd arloesol i ymdrin â rhwystrau i ddysgu. Defnyddir asesu i ddatblygu dysgu a sicrhau atebolrwydd agored a chlir.

Gweithlu o safon uchel

Rydym yn denu'r bobl orau i arwain a gweithio yn ein hysgolion a'n lleoliadau addysg. Mae pob aelod o staff, mewn lleoliadau prif ffrwd ac arbenigol, yn cael ei gefnogi'n dda i gaffael y sgiliau a'r wybodaeth i gefnogi anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol.

Amgylcheddau dysgu'r 21ain ganrif

Mae lleoedd ysgol priodol o ansawdd ar gyfer i blant a phobl ifanc sy'n ateb anghenion poblogaeth gynyddol a newidiol Caerdydd. Mae ysgolion wedi'u dylunio'n dda i gynnig amgylcheddau

cynhwysol, hygyrch, sy'n cynnwys mannau hyblyg, technolegau digidol ac adnoddau arbenigol i ddiwallu ystod eang o anghenion dysgu ychwanegol.

System ysgolion sy'n hunan-wella

Mae ysgolion yn cymryd cyfrifoldeb a rennir gyda'r awdurdod lleol a Chonsortiwm Canolbarth y De er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i ddysgwyr ag anghenion ychwanegol ac ar gyfer cefnogi datblygu arferion cynhwysol ledled y ddinas. Mae cydweithredu rhwng ysgolion arbennig a phrif ffrwd yn sicrhau bod arfer gorau yn cael ei rannu rhwng ac ar draws y ddau sector, i adeiladu'r capasiti ar gyfer gwella ar y cyd ar draws y system.

Ysgolion a Chaerdydd mewn partneriaeth

Mae gan ysgolion, lleoliadau blynyddoedd cynnar a darparwyr addysg eraill gysylltiadau cryf gyda'r cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu a gyda busnesau a mentrau yn y ddinas-ranbarth. Mae cyfraniad y rhieni fel addysgwr cyntaf y plentyn yn cael ei gydnabod, ac mae rhieni'n cael eu cynnwys yn llawn yn y broses o asesu a chynllunio'r ddarpariaeth dysgu ychwanegol ar gyfer eu plentyn. Mae ysgolion a'r awdurdod lleol yn gweithio i ddatblygu cydweithredu cadarnhaol â'r gwasanaethau iechyd, y gwasanaethau plant ac oedolion ac ystod o sefydliadau trydydd sector, i roi cymorth amlddisgyblaethol effeithiol i ddysgwyr a'u teuluoedd.

Egwyddorion Strategaeth ADY Caerdydd

Mae system addysg gynhwysol yn seiliedig ar:

1. Waith partneriaeth a chydweithredu effeithiol rhwng yr holl randdeiliaid: ysgolion a lleoliadau addysg eraill, gwasanaethau awdurdod lleol, y sector iechyd a gwirfoddol, plant a phobl ifanc a'u teuluoedd.

2. Cyfranogiad actif plant a phobl ifanc, a'u teuluoedd.

3. Eglurder ac atebolrwydd o ran rolau a chyfrifoldebau ysgolion, yr awdurdod lleol a phartneriaid eraill.

4. Nodi cynnar, asesu anghenion dysgu ychwanegol, a dull unedig o ran cynllunio a chefnogi.

5. Mynediad cyfartal i ddarpariaeth dysgu ychwanegol ar draws pob sector.

6. Gwybodaeth gynhwysol, sy'n hygyrch i bawb, ynghylch gwasanaethau a darpariaeth i gefnogi anghenion dysgu ychwanegol.

Yr angen am Strategaeth ADY newydd

Mae dau fater a fydd yn llunio ein dull o ran gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol:

- Rhaglen Trawsnewid ADY Llywodraeth Cymru, a fydd yn trawsnewid sut rydym yn gweithio ynghyd i sicrhau canlyniadau da i ddysgwyr;

- Yr angen i ymateb yn effeithiol i boblogaeth ADY gynyddol Caerdydd, drwy sicrhau bod yna gapasiti a darpariaeth i ymateb i anghenion dysgu ychwanegol.

Rhaglen Trawsnewid ADY

Nod Llywodraeth Cymru yw trawsnewid disgwyliadau, profiadau a chanlyniadau i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg yn newid y ffordd mae ysgolion, awdurdodau lleol, byrddau iechyd a phartneriaid eraill yn gweithio ynghyd i gefnogi anghenion dysgu ychwanegol.

Mae Cyngor Caerdydd yn croesawu'r cyfle i newid y ffordd yr ydym yn gweithio â phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd, i sicrhau bod dysgwyr a'u teuluoedd wrth wraidd y gwaith o asesu, cynllunio a chefnogi.



Mae Strategaeth ADY Caerdydd 2018-22 yn nodi fframwaith ar gyfer gweithredu, mewn partneriaeth â dysgwyr, rhieni, ysgolion, iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau gwirfoddol i sicrhau bod y gofynion newydd yn cael eu paratoi a'u gweithredu'n effeithiol.

Y boblogaeth ADY gynyddol yng Nghaerdydd.

Mae nifer y plant a'r bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yng Nghaerdydd yn tyfu. Mae hyn yn bennaf oherwydd y gyfradd genedigaethau gynyddol yng Nghaerdydd. Mae'r boblogaeth ysgol yn tyfu, ac os bydd mwy o ddysgwyr yna'n naturiol bydd mwy o ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

Ond mae o leiaf dri ffactor arall sy'n effeithio ar nifer yr anghenion dysgu ychwanegol. Mae nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cael eu diagnosio â chyflyrau ar y sbectrwm awtistig neu Anhwylderau Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) wedi bod yn tyfu am nifer o flynyddoedd. Rydym hefyd yn gweld cynnydd o ran anghenion iechyd meddwl ymysg plant a phobl ifanc.

Ond credir hefyd ei fod yn deillio o gyfraddau goroesi gwell i blant ag anableddau cymhleth, a chynnydd o ran nifer / nodi cyflyrau ar y sbectrwm awtistig. Mae mudo mewnol hefyd yn ffactor sylweddol: gall manteision Ysbyty Plant Cymru, ac ystod eang o ysgolion arbennig, fod yn ffactor i deuluoedd sy'n symud i Gaerdydd o ardaloedd eraill o Gymru a theuluoedd sy'n newydd i'r DU.

Mae'r boblogaeth ADY gynyddol yn bennaf oherwydd twf poblogaeth cyffredinol Caerdydd, ond mae tri ffactor ychwanegol.

Mae cyfraddau goroesi amenedigol i blant ag anableddau cymhleth wedi bod yn gwella dros y 10-20 mlynedd diwethaf, gan arwain at gynnydd yn nifer y plant a phobl ifanc sydd angen darpariaeth arbenigol i sicrhau eu bod yn gallu cael addysg a chyflawni eu potensial.

Mae niferoedd rhai cyflyrau / y gwaith o'u nodi, gan gynnwys cyflyrau ar y sbectrwm awtistig ac anawsterau iechyd meddwl hefyd wedi cynyddu'n sylweddol, ac yn parhau i dyfu. Mae'r ddau ffactor yma yn dueddiadau rhyngwladol; nid ydynt yn benodol i Gaerdydd.

Yng Nghaerdydd, mae mudo mewnol hefyd yn ffactor sylweddol. Gall nifer yr anghenion cymhleth ac anableddau fod yn sylweddol uwch ymysg y boblogaeth disgyblion 'sydd newydd gyrraedd' nag ymysg y boblogaeth ysgol gyffredinol. Credir bod manteision Ysbyty Plant Cymru, ac ystod eang o ysgolion arbennig yn y ddinas, yn ffactorau allweddol sy'n denu teuluoedd i Gaerdydd.

Goblygiadau o ran capasiti i ddiwallu anghenion ar draws y system

Nododd y gweithgor ADY nifer o weithgareddau sydd eu hangen i wella capasiti ar y cyd ysgolion a'u partneriaid i ddiwallu ADY, a gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau ADY i sicrhau canlyniadau da.

<u>Cydweithredu â'r gwasanaethau iechyd a chymdeithasol</u>
Mae perthnasau da rhwng y gwasanaethau iechyd, addysg a phlant yng Nghaerdydd, a nifer o esiamplau o gydweithredu effeithiol i gefnogi anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys:

- y llwybr niwroddatblygiadol, sy'n cyflawni asesiadau amlddisgyblaethol
- y Fforwm Blynyddoedd Cynnar, sy'n nodi plant cyn ysgol ag anghenion cymhleth a chynllunio mewn partneriaeth i gefnogi mynediad i hawl i addysg feithrin
- rhannu gwybodaeth rhwng y gwasanaethau awdioleg ac offthalmoleg ac athrawon arbenigol ar gyfer namau synhwyraidd

- ‘The Handwriting Motorway’, sy’n rhoi canllawiau ac adnoddau i gefnogi datblygiad sgiliau echddygol manwl a bras, a gynhyrchwyd gan athrawon arbenigol a therapyddion galwedigaethol
- ‘The Joint Speech and Language Pathway’ - cydweithrediad arloesol i gefnogi sgrinio cynnar a chymorth ar gyfer anghenion lleferydd ac iaith, a phwynt atgyfeirio unigol i therapyddion ac athrawon arbenigol
- Y Strategaeth Cymorth Cynnar, gan gynnwys gwasanaethau a gomisiynir gan Teuluoedd yn Gyntaf
- Rhoi hyfforddiant a chyngor i gefnogi plant ag anghenion meddygol
- Mae ystod o wasanaethau iechyd hefyd yn gweithio ag ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau arbenigol, yn dibynnu ar yr ystod o anghenion

Bydd parhau i adeiladu ar y perthnasau hyn a nodi cyfleoedd pellach i weithio ar y cyd yn allweddol o ran gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, gyda phwyslais penodol ar yr angen i ddatblygu ymhellach:

- Cydweithredu i gefnogi plant cyn ysgol ag anghenion cymhleth
- Partneriaethau i gefnogi pontio llwyddiannus i addysg bellach, cyflogaeth a hyfforddiant ôl-16
- Cymorth aml-asiantaeth i blant a phobl ifanc ag anghenion iechyd a lles emosiynol
- Ymyrraeth gynnar
- Cymorth i deuluoedd

Gwybodaeth am ddarpariaeth a gwasanaethau ADY

Adolygodd y grŵp yr ystod eang o wasanaethau a chymorth o ansawdd a ddarperir yn ysgolion Caerdydd. Daeth y grŵp i’r casgliad fod angen cyfeirlyfr cyfoes sy’n ystyriol o rieni, i’w gwneud yn haws i rieni, ysgolion, ymarferwyr iechyd, gweithwyr cymdeithasol a sefydliadau sector gwirfoddol i gael mynediad i wybodaeth gynhwysfawr am gymorth sydd ar gael, ac i’w helpu i ddeall y system.

Cymorth ysgol-i-ysgol ar gyfer arferion ADY

Mae’r diwylliant cymorth ysgol-i-ysgol ar gyfer arwain a chodi safonau yn datblygu ac yn cael ei sefydlu mewn nifer o ysgolion. Fodd bynnag, nid yw gwaith ysgol-i-ysgol mewn perthynas â chynhwysiant wedi’i strwythuro neu ei ffurfioli eto. Daeth y grŵp i’r casgliad fod angen creu systemau ar gyfer nodi a rhannu anghenion arfer gorau.

Defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau i ddiwallu anghenion mewn ysgolion prif ffrwd

Dros gyfnod o dair blynedd, o 2014-15 i 2016-17, cynyddodd nifer a chost datganiadau prif ffrwd (Gwella Anghenion Cymhleth) o £4.8M i £6.3M; cynnydd o 63%.

Ym mis Ebrill 2017 roedd 724 o ddisgyblion â datganiadau a gyllidir gan CNE, a ddefnyddir gan fwyaf i gyflogi Cynorthwywyr Cymorth Dysgu Gradd 3 i roi ‘cymorth un i un’. Roedd hyn yn cynnwys:

- 95 disgybl meithrin sy’n cael eu cyllido
- 258 disgybl cynradd a 115 disgybl uwchradd â chymorth llawn amser
- 149 disgybl cynradd a 95 disgybl uwchradd â rhywfaint o gymorth ychwanegol



Roedd y grŵp yn bryderus bod cynnydd o ran datganiadau prif ffrwd yn arwain at or-ddibyniaeth ar 'gymorth un i un'. Er bod nifer o ddisgyblion angen cymorth gydol y dydd er mwyn manteisio ar addysg a gwneud cynnydd da o ran eu dysgu, nid 'cymorth un i un' bob amser yw'r defnydd mwyaf effeithlon o adnoddau, neu'r ffordd fwyaf effeithiol o gefnogi disgyblion. Soniodd y penaethiaid am yr anawsterau o sicrhau staff â'r sgiliau priodol, ac o reoli niferoedd uchel o Gynorthwywyr Cymorth Dysgu un i un. Mae ymchwil yn dangos bod plant â chymorth 'un i un' dynodedig yn aml yn cael llai o gyswllt â'u hathrawon, a gallant ddod yn or-ddibynnol ar un oedolyn, a gallant gael llai o gyfleoedd i fwynhau rhyngweithio â'u cyfoedion.

Daeth y grŵp i'r casgliad fod angen lleihau dibynadwyedd ar 'gymorth un i un' drwy gynyddu nifer y lleoedd mewn Canolfannau Adnoddau Arbennig sydd ar gael yng Nghaerdydd, drwy ail-ystyried y ffordd y mae datganiadau prif ffrwd yn cael eu hysgrifennu, a thrwy gynyddu'r cyfleoedd i ddiwallu anghenion heb yr angen am ddatganiad. Bydd yr ALNET, gyda'r pwyslais ar lai o fiwrocratiaeth, a dull sy'n canolbwyntio ar y person o ran asesu a chynllunio, yn cefnogi'r goliau hyn.

Mae blaenoriaeth 2 o Strategaeth Caerdydd yn canolbwyntio ar gamau i gryfhau capasiti i ddiwallu anghenion ar draws y system.

Goblygiadau ar gyfer darpariaeth arbenigol

Ers 2012, mae nifer y lleoedd mewn ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau arbenigol i ddisgyblion â chyflyrau ar y sbectrwm awtistig neu ag anableddau dysgu cymhleth wedi cynyddu'n sylweddol. Disgwylir i'r galw am leoedd arbenigol dyfu ar gyfradd debyg dros y 5-10 mlynedd nesaf. Rhagwelir cynnydd ym mhob maes ADY:

- anghenion dysgu cymhleth (ADC) (gan gynnwys anawsterau dysgu difrifol (ADD), anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu (AnLIICh), anghenion corfforol a meddygol (ACM), anableddau dysgu dwys a lluosog (ADDLI).
- cyflyrau ar y sbectrwm awtistig (CSA).
- anghenion ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol (AYEC).

Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, mae Caerdydd wedi gorfod cynyddu ei dibyniaeth ar y sector annibynnol er mwyn cydymffurfio â dyletswyddau statudol. Yn 2017-18, bydd Caerdydd yn ariannu 113 o ddisgyblion mewn lleoedd ysgol arbennig annibynnol ar gost o £2.5M. Mae cost y llefydd hyn yn amrywio o £28K i £57k y flwyddyn, o'i gymharu â chostau ysgolion arbennig Caerdydd o £14k i £25k y flwyddyn, sy'n golygu bod gor-ddibyniaeth ar leoedd ysgol annibynnol yn her ariannol

sylweddol i Gaerdydd. Mae angen lleihau lleoli yn y sector annibynnol lle bynnag y bo'n bosibl, drwy sicrhau ystod ddigonol o ddarpariaeth arbenigol o ansawdd uchel yng Nghaerdydd.

Mae'r Strategaeth yn nodi dull dau gam o ran datblygu lleoedd mewn ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau arbennig, a gwella ansawdd cyfleusterau a llety:

- Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, a fydd yn cynnwys cynlluniau i wella cyfleusterau ysgolion arbennig ac ymestyn lleoedd arbenigol
- Cynllun Datblygu ADY Interim i ail-lunio ac ymestyn darpariaeth arbenigol rhwng 2018 a 2022

Blaenoriaethau ac amcanion - crynodeb

BLAENORIAETH 1 – Gwella canlyniadau i ddysgwyr ADY trwy weithredu'r Rhaglen Trawsnewid ADY yn llwyddiannus

Amcanion:

1. Gweithio â phartneriaid yn y Gwasanaethau Iechyd, Plant ac Oedolion, Coleg Caerdydd a'r Fro a darparwyr addysg eraill i ddatblygu dulliau effeithiol o ran asesu a chynllunio unedig ar gyfer dysgwyr ADY 0-25.
2. Cefnogi datblygiad y rôl Cydlynydd ADY a chyflwyno dulliau Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar y Person mewn ysgolion.
3. Gweithio gydag ysgolion, lleoliadau blynyddoedd cynnar a darparwyr addysg ôl-16 i ddatblygu ymhellach gymorth ar gyfer pontio: cyn ysgol; cynradd i uwchradd; ôl-16; i fywyd fel oedolyn.
4. Datblygu ymhellach ansawdd gwasanaethau arbenigol ADY a gwasanaethau allgymorth i gefnogi ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar.
5. Gwella ymhellach brosesau ar gyfer osgoi a datrys unrhyw wrthdaro.

BLAENORIAETH 2 – Gwella canlyniadau i ddysgwyr ADY drwy gryfhau ein cyd-gapasiti i ddiwallu'r holl anghenion.

Amcanion:

6. Gwella amlygrwydd y gwasanaethau ADY a darpariaeth i'r holl randdeiliaid.
7. Datblygu ymhellach y diwylliant cymorth ysgol i ysgol i alluogi ysgolion i gyrchu'r arferion ADY gorau.
8. Galluogi ysgolion i gyflawni'r gwerth gorau trwy ddefnydd mwy hyblyg o gyllidebau ADY dirprwyedig.

BLAENORIAETH 3 - Gwella canlyniadau i ddysgwyr ADY trwy sicrhau darpariaeth ddigonol ac o ansawdd uchel

Amcanion:

9. Datblygu lleoedd ychwanegol mewn canolfannau adnoddau arbennig ac ysgolion arbennig i ddiwallu anghenion cyfredol ac arfaethedig 2018-22.
10. Ymgynghori ag ysgolion a phartneriaid eraill ar ddewisiadau Band B ar gyfer datblygu darpariaeth arbenigol, i sicrhau addasrwydd a digonolrwydd ar gyfer anghenion arfaethedig 2022-27.
11. Diwygio Strategaeth Hygyrchedd Caerdydd i sicrhau bod plant a phobl ifanc ag anableddau ac anghenion iechyd yn cael eu cynnwys yn effeithiol mewn dysgu.
12. Ail-lunio darpariaeth a gwasanaethau arbenigol ar gyfer anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu (ALIICh) i sicrhau cymorth cynnar effeithiol ar gyfer namau iaith penodol ac ALIICh sy'n gysylltiedig ag anghenion eraill.